

Cymdeithas Dehongli Treftadaeth

“ahi

Canllaw Arfer Gorau 21

Cynaliadwyedd ac Adfywio

Eric Langham, Ymddiriedolwr AHI
a Sylfaenydd Barker Langham



Ionawr 2026

Wedi'i gynllunio ar gyfer sgriniau – dim angen argraffu

1. Cyflwyniad: Ailfeddwl
Dehongli a Chynaliadwyedd

2. Creu: Meddwl yn Gynaliadwy
wrth Ddatblygu Arddangosfeydd

3. Ailddychmygu:
Ymestyn Gwerth

4. Adfywio: Ysbrydoli
Adnewyddu

5. Adnoddau a
Darllen Pellach

I: Cyflwyniad

Ailfeddwl Dehongli a Chynaliadwyedd



Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio mewn dehongli – curaduron, dylunwyr, penseiri, addysgwyr, ariannwyr, partneriaid cymunedol, neu gynulleidfaoedd sy'n chwilfrydig ynghylch sut mae arddangosfeydd a rhaglenni diwylliannol yn dod yn fyw.

Beth yw dehongli?

Wrth ei wraidd, dehongli yw celfyddyd rhannu straeon, syniadau ac ystyr mewn ffyrdd sy'n cysylltu pobl â lleoedd, gwrthrychau a'i gilydd. Gallai fod yn arddangosfa, digwyddiad, llwybr, perfformiad, neu hyd yn oed un panel testun. Os yw'n sbarduno dealltwriaeth, emosiwn neu fyfyrddod – dehongli ydyw. Ond mae dehongli yn fwy na chyfathrebu yn unig.

Ond mae dehongli yn fwy na chyfathrebu yn unig. Mae'n bont:

- Rhwng y gorffennol a'r presennol;
- Rhwng pobl, lleoedd a syniadau;
- Rhwng tawelwch ac ystyr.

Mae ei bwrpas yn syml ond yn bwerus: distyllu hanfod hanes dynol a naturiol yn brofiadau sy'n bwysig – profiadau sy'n aros, y n atseinio ac yn ysbrydoli.

Pam mae'r canllaw hwn yn bwysig?

Nid yw amgueddfeydd, orielau, safleoedd treftadaeth a gwyliau ar wahân i heriau ein hoes. Mae newid hinsawdd, anghydraddoldeb a newidiadau economaidd yn effeithio arnynt ac maen nhw, yn eu tro, yn dylanwadu ar sut mae cymunedau'n gweld eu hunain ac yn dychmygu'r dyfodol. Mae gan bob dewis mewn dehongli, boed ynghylch deunyddiau, dylunio neu adrodd straeon, effaith.

Bydd y canllaw hwn yn helpu i wella'r dewisiadau hynny. Gyda dulliau ymarferol, awgrymiadau creadigol ac enghreifftiau go iawn, mae'n annog symudiad o wneud llai o niwed er mwyn gwneud mwy o ddaioni. Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n credu y gall diwylliant fod yn rym ar gyfer adnewyddu, gofal a dychymyg.

Ein hegwyddorion arweiniol


Mae pedwar egwyddor yn rhedeg drwy'r canllaw hwn:

5




**Mae cynaliadwyedd
amgylcheddol a
chymdeithasol yn
anwahanadwy.**

Rhaid i ofalu am bobl a'r blaned fynd law yn llaw.




**O lai o niwed i fwy
o ddaioni.**

Mynd y tu hwnt i gyfyngu ar ddifrod; anelu at adfywio.



**Wedi'i fewnosod
a'i gyfuno.**

Dylai cynaliadwyedd lunio popeth - o weledigaeth a deunyddiau i brofiad a chof y gynulleidfa.



**Rhannu cyfrifoldeb
ac uchelgais.**

Mae gan bawb rôl. Gyda'n gilydd, gallwn osod safonau uwch ac ysbrydoli newid.

Y CwmpasEr mai arddangosfeydd yw'r ffocws yma, mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol ar draws rhaglenni, perfformiadau, gwylliau, prosiectau cymunedol, ac adrodd straeon digidol – unrhyw le y mae pobl yn cysylltu â syniadau, lleoedd, neu ei gilydd.

Yn fyr:

Mae'r canllaw hwn ar gyfer pawb sy'n credu y dylai dehongli nid yn unig rannu ystyr ond modelu'r llwybr yn weithredol at ddyfodol llewyrchus.

2: Creu

7

Meddwl Cynaliadwy wrth Ddatblygu Arddangosfeydd



Nid yw cynaliadwyedd yn ôl-ystyriaeth. Dyma sylfaen sut rydym yn dychmygu, dylunio a chyflwyno arddangosfeydd heddiw. Mae pob dewis – mawr neu fach – yn llunio'r math o fyd rydym yn ei adael.


Meddwl yn gynaliadwy yw cydnabod nad sioeau dros dro yw arddangosfeydd; maent yn rhan o stori hirach. Mae ganddynt olion troed, etifeddiaeth a chyfrifoldeb. Mae ymgorffori cynaliadwyedd yn golygu gofyn ar bob cam: Lleisiau pwy sydd wedi'u cynnwys? Pa effaith fydd gan ein deunyddiau? Sut fydd y dyluniad hwn yn parhau pan ddaw'r arddangosfa i ben?

Mae hwn yn alwad i newid ein meddylfryd. I weld y broses arddangos fel taith, lle mae cyfrifoldeb wedi'i blethu i bob penderfyniad – o wreichionen gyntaf syniad, i'r datgymalu terfynol, i fywyd parhaus y deunyddiau y tu hwnt i'r arddangosfa.

Mae hyn yn ymwneud â dylunio gyda gofal, adeiladu gyda rhagwelediad, ymgysylltu â thegwch, a gadael etifeddiaeth sy'n cryfhau pobl a'r blaned. Wrth i ni ymgorffori cynaliadwyedd yn y ffordd hon, mae arddangosfeydd yn dod yn fwy na phrofiadau diwylliannol: maent yn dod yn fodelau o gyfrifoldeb, gweithredoedd o stiwardiaeth, ac ymrwymïadau i ddyfodol a rennir.

Pecyn Cymorth 1:

Proses Arddangosfa Gynaliadwy



Drwy ymgorffori cyfrifoldeb ym mhob cam, gall arddangosfeydd brofi bod diwylliant a gofal am y blaned yn perthyn i'w gilydd.

Pecyn Cymorth 1:

Proses Arddangosfa Gynaliadwy

Cyfnod 1: Dechreuad

Nodau



- Diffinio amcanion cynaliadwyedd clir.
- Sefydlu cyfrifoldeb cyffred ar draws y tîm a chymunedau perthnasol.
- Lleihau effaith amgylcheddol teithio cynulleidfaoedd wrth annog mynediad i gynulleidfaoedd amrywiol.

Camau gweithredu



- Ystyriwch a yw'r arddangosfa'n angenrheidiol.
- Ystyriwch ble y gellid ei harddangos ar ôl eich safle.
- Archwiliwch wneud llai o arddangosfeydd ond rhai sy'n rhedeg yn hirach i leihau'r effaith.
- Ystyriwch ddewisiadau eraill: a allai fod yn ddigidol, ar-lein, neu hybrid?
- Meithrin ymwybyddiaeth tîm o egwyddorion cynaliadwyedd.
- Ymgysylltu â chymunedau perthnasol yn gynnar, gan gynnwys trigolion lleol, grwpiau sy'n gysylltiedig â'r pwnc, sefydliadau partner, a chynulleidfaoedd posibl.
- Ystyriwch ôl troed amgylcheddol wrth gynllunio a thargedu cynulleidfaoedd – blaenoriaethu cynulleidfaoedd lleol iawn lle bo'n ymarferol.
- Cydweithiwch â darparwyr trafndiaeth gyhoeddus, cynlluniau beicio, neu lwyfannau rhannu ceir i gynnig cymhellion neu deithio am bris gostyngol.

Cyfnod 2: : Ymchwil a Datblygu Cynnwys

Nodau



- Datblygu cynnwys sy'n gynhwysol, yn lleol, ac yn gymdeithasol gyfrifol.
- Sicrhau bod dehongli'n adlewyrchu lleisiau amrywiol a phrofiadau hygrych.

Camau gweithredu



- Cymhwyso dulliau dehongli cynhwysol, megis elfennau amlsynhwyrdd, testun/cyfyngau hygrych, a chynnwys amlieithog.
- Ymgorffori elfennau cyfranogol a chyfleoedd cyd-greu.
- Nodi camau gweithredu clir y gall ymwelwyr eu mabwysiadu neu eu haddasu yn eu bywydau eu hunain i hyrwyddo buddion amgylcheddol, cymdeithasol neu gymunedol.
- Ymchwilio i safbwyntiau amrywiol a'u hymgorffori.
- Ymgynghori â phartneriaid cymunedol drwy gydol y datblygiad.

Cyfnod 3: Cynllunio a Dylunio

Nodau



- Creu dyluniadau arddangosfa gynaliadwy, hyblyg a modiwlaid.
- Adeiladu ar gyfer ailddefnyddio, effaith leiaf posibl, ac etifeddiaeth yn y dyfodol.

Camau gweithredu



- Defnyddio arddangosfeydd modiwlaid neu ddadosodadwy.
- Dylunio casys arddangos y gellir eu hailddefnyddio wedi'u llywio gan arfer gorau cydnabyddedig y DU ar gyfer rheolaeth a diogelwch amgylcheddol (e.e. PAS 198 a disgwyliadau Cynllun Indemniad y Llywodraeth), gan sicrhau y gellir eu hailddefnyddio a'u bod yn parhau i fod yn addas ar gyfer benthyciadau yn y dyfodol.
- Blaenoriaethu dyluniad ar gyfer dadadeiladu (clipiau a sgriwiau).
- Nodi deunyddiau cynaliadwy (pren Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd [FSC], dur wedi'i ailgylchu, dim PVC [polyfynyl clorid], paentiau sy'n seiliedig ar fwynau).
- Lleihau symud gwrthrychau a deunyddiau.
- Ymgysylltu â chynrychiolwyr cynnyrch ar gyfer atebion cynaliadwy.
- Integreiddio deunyddiau wedi'u hachub a'u hailgylchu i gysyniad yr arddangosfa.
- Datblygu cynllun busnes sy'n rhagweld defnyddiau'r gofod yn y dyfodol.
- Cynllunio ar gyfer ailddefnyddio a dad-adeiladu yn y pen draw, gan gynnwys cynlluniau pŵer a goleuadau bach hyblyg ac ymarferol.
- Archwilio cyfleoedd cyllidebol i alluogi dewisiadau cynaliadwy.

Pecyn Cymorth 1:

Proses Arddangosfa Gynaliadwy

Cyfnod 4: Adeiladu a Gosod

Nodau

- Lleihau'r effaith amgylcheddol yn ystod y gwaith adeiladu.
- Ymgorffori cynaliadwyedd mewn deunyddiau, dulliau ac amserlennu.



Camau gweithredu

- Ailddefnyddio waliau, casys a phlinthau; lleihau adeiladau newydd.
- Defnyddio paent cyfansoddion organig anweddol isel (VOC isel), gludyddion eco a goleuadau LED (deuod allyrru golau).
- Ymgorffori deunyddiau wedi'u hachub a'u hailgylchu wrth adrodd straeon.
- Amserlennu'n effeithlon i leihau defnydd ynni a gwastraff.



Cyfnod 5: Gweithrediadau ac Ymgysylltu ag Ymwelwyr

Nodau

- Darparu profiad cynaliadwy, cynhwysol a chyfartal i ymwelwyr.
- Sicrhau bod lles a hygyrchedd yn rhan annatod o weithrediadau.



Camau gweithredu

- Lleihau print untro; darparu canllawiau a thafluniadau digidol.
- Cynnig dewisiadau nwyddau, bwyd a diod cynaliadwy.
- Ymgorffori hygyrchedd, cydraddoldeb a lles ar draws pob profiad ymwelwyr.
- Cynnig gostyngiadau neu fanteision tocynnau i ymwelwyr sy'n teithio i'r arddangosfa ar droed, ar feic, neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Darparu opsiwn i ymwelwyr sy'n teithio mewn car i wrthbwysu allyriadau carbon eu taith.
- Cyfleu opsiynau teithio cynaliadwy yn glir mewn gwybodaeth marchnata a thocynnau.



Cyfnod 6: Datgymalu ac Etifeddiaeth

Nodau

- Cau'r ddolen gynaliadwyedd.
- Cipio a rhannu dysgu sefydliadol ar gyfer arddangosfeydd yn y dyfodol.



Camau gweithredu

- Ailddefnyddiwch, ailgylchu, neu roi deunyddiau.
- Datblygwch gynllun rheoli gwastraff i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu gwaredu'n gyfrifol (0% i safle tirlenwi), gan olrhain ac adrodd ar ganlyniadau.
- Defnyddiwch blatfform Cyfnewid Cymdeithas Dehongli Treftadaeth (AHI) i gofnodi, rhannu ac ailddosbarthu deunyddiau arddangosfa.
- Storiwch gydrannau modiwlaid ar gyfer arddangosfeydd yn y dyfodol.
- Dogfenwch wersi a ddysgwyd mewn 'cof cynaliadwyedd'.



Mae cynaliadwyedd mewn arddangosfeydd yn gyfrifoldeb sy'n llunio pob penderfyniad yn y broses. Mae pob deunydd a ddewisir, pob stori a adroddir, a phob rhyngweithiad ag ymwelwyr yn dwyn canlyniadau i'r amgylchedd a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae lleihau niwed yn dechrau gydag ymwybyddiaeth. Mae'n golygu cydnabod ble gallai niwed ddigwydd a chymryd camau bwriadol i'w atal, boed trwy ddeunyddiau a ddefnyddir, ynni a ddefnyddir, neu gynhwysiant y profiadau a grëwyd. Mae hwn am wneud mwy gyda llai, dylunio ar gyfer ailddefnyddio, ac adeiladu systemau sy'n gadael etifeddiaeth gadarnhaol.

Dyma gyfle i ailystyried proses yr arddangosfa o'r gwaelod i fyny. O gaffael deunyddiau'n gyfrifol, lleihau gwastraff, a thorri'r defnydd o ynni, i ymgorffori hygyrchedd, ecwiti, a chyfranogiad cymunedol ar bob lefel, gallwn drawsnewid arddangosfeydd yn fodelau o arfer moesegol, cyfrifol.

Mae arddangosfeydd cynaliadwy yn ymwneud â chreadigrwydd, nid cyfaddawdu – dod o hyd i ffyrdd arloesol o swyno, addysgu ac ymgysylltu ag ymwelwyr gan ofalu am bobl a'r blaned.

Astudiaeth Achos: Canolfan Darganfod Bywyd Gwyllt yr Alban

Mewnosod Cynaliadwyedd Drwy Gyd y Broses Arddangos Atebolrwydd

13

Gwnaeth Cymdeithas Sŵolegol Frenhinol yr Alban a Bright White bartneriaeth i greu'r strategaeth adrodd straeon, dylunio a deongliadol ar gyfer Canolfan Darganfod Bywyd Gwyllt yr Alban (SWDC): menter gwerth £6.5 miliwn ym Mharc Bywyd Gwyllt yr Ucheldiroedd, yng nghanol Parc Cenedlaethol Cairngorms. Yn fwy nag arddangosfa, mae SWDC yn fodel blaenllaw sy'n dangos sut y gellir ymgorffori cyfrifoldeb a chynaliadwyedd ym mhob cam o'r broses arddangos - o ymgynghori, i adeiladu, i brofiad ymwelwyr.

Catalydd ar gyfer Newid

Mae biom Cairngorms yn un o'r tirweddau mwyaf arwyddocaol yn ecolegol yn y DU. Mae SWDC yn cynnig cyfarfyddiadau agos atoch â rhywogaethau brodorol yr Alban a llysgenhadon cadwraeth byd-eang - o gathod gwyllt a llwynogod Arctig i eirth gwynion a llewpardiaid eira. Gyda'i gilydd, mae'r rhywogaethau hyn yn datgelu'r heriau cydgysylltiedig o golli bioamrywiaeth, straen hinsawdd, a darnio cynefinoedd. Crëwyd y Ganolfan nid yn unig i hysbysu ond i weithredu fel catalydd ar gyfer newid ymddygiad, gan helpu ymwelwyr i ddeall y berthnasoedd rhwng pobl, lle a bywyd gwyllt a'u grymuso i gymryd camau ystyrlon.

Cyfrifoldeb o'r Cychwyn

Cyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol a luniodd y prosiect o'i foment gynharaf.

Ymgysylltwyd â dros 90 o grwpiau rhanddeiliaid - gan gynnwys cymunedau lleol, cadwraethwyr, addysgwyr, rheolwyr tir a chynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol - i lunio blaenoriaethau naratif, dulliau deongliadol a dyheadau cymunedol.

Sicrhodd y broses gyfranogol hon fod profiad byw wedi llywio pob penderfyniad a bod y profiad terfynol yn gynhwysol, yn berthnasol ac wedi'i seilio'n lleol.

Adeiladu'n Gynaliadwy, Dangos

Roedd egwyddorion cynaliadwyedd yn arwain pob penderfyniad deunydd, adeiladu a gweithredol. Mae'r tri adeilad newydd yn cael eu pweru bron yn gyfan gwbl gan baneli solar integredig a phympiau gwres ffynhonnell aer.

Mae un yn defnyddio system dŵr llwyd, ac mae gan ddau doeau byw sy'n darparu cynefin i rywogaethau brodorol. Cafodd llawer o osodiadau a ffitiadau eu crefftio o goed a chwythwyd gan y gwynt a gafwyd yn uniongyrchol o'r safle.

Sicrhodd polisi deunyddiau cynaliadwy ar y cyd fod y deunyddiau a ddewiswyd yn ailgylchadwy, yn fioddiraddadwy neu wedi'u gwneud o ffynonellau wedi'u hailgylchu lle bynnag y bo modd. Gwneir y dewisiadau hyn yn weladwy o fewn y rhaglenni dehongli a chyhoeddus, gan droi'r adeiladau eu hunain yn offer addysgu. Nid dim ond datgan cynaliadwyedd - mae'n cael ei ddangos.



Astudiaeth Achos: Canolfan Darganfod Bywyd Gwyllt yr Alban

Mewnosod Cynaliadwyedd Drwy Gyd y Broses Arddangos

14

Dehongli sy'n Ymateb i Ymwelwyr

Cafodd Dehongli ei gynllunio fel taith anlinellol, sy'n canolbwyntio ar yr ymwelydd, i annog asiantaeth a darparu ar gyfer ystod eang o arddulliau dysgu ac anghenion mynediad.

Mae'r mannau allweddol yn cynnwys:

- **An Doras (Y Porth):** canolfan trochi sy'n cysylltu rhywogaethau Albanaidd a byd-eang ac sy'n cyflwyno cwestiynau cadwraeth mawr ein hoes.
- **A' Chaonnag (Y Cwch Dysgu):** amgylchedd dysgu hyblyg sy'n cefnogi ysgolion, grwpiau ieuenctid a sefydliadau cymunedol trwy raglenni cynhwysol a hygyrch.
- **An Saobhaidh (Y Ffau Cadwraeth):** gofod myfyriol sy'n cynnig golygfeydd panoramig o ardaloedd bridio cadwraeth, gan gynnwys ar gyfer y gath wyllt sydd mewn perygl difrifol.

Mae adrodd straeon byr, anlinellol yn galluogi ymwelwyr i guradu eu llwybrau eu hunain, gan annog ymgysylltiad estynedig ac effaith ymddygiadol ddyfnach a pharhaol.



Model Ar Gyfer Ymarfer Arddangos Cyfrifol


Wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr AHI Calling Out Climate Change, mae SWDC yn dangos sut y gall cynaliadwyedd a chynhwysiant - yn enwedig pan gânt eu hymgorffori o'r cychwyn cyntaf - drawsnewid arddangosfa yn enghraifft fyw, weithredol o ymarfer sy'n ymwybodol o'r hinsawdd. Mae'n bodloni 13 o 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (SDGs) y Cenhedloedd Unedig (CU), gan ddangos bod dull cyfrifol ac adfywiol nid

yn unig yn bosibl ond yn bwerus. Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos arfer gorau newydd ar gyfer y sector, gan ddangos na ddylai cynaliadwyedd fod yn ychwanegiad nac yn ystyriaeth yn y cam olaf. Pan gaiff ei drin fel meddylfryd – a'i gymhwyso'n feddylgar ym mhob cam – mae cynaliadwyedd yn lleihau niwed, yn cryfhau cysylltiad cymunedol, ac yn trawsnewid dehongliad yn gatalydd ar gyfer gweithredu amgylcheddol.

Pecyn Cymorth 2:

Lleihau Effeithiau Amgylcheddol a Chymdeithasol

15



Mae'r pecyn cymorth hwn yn edrych ar ffyrdd ymarferol y gallwn leihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol niweidiol. Meddyliwch amdano fel map o liferi y gallwn eu tynnu - camau gweithredu bach sy'n adeiladu at newidiadau mawr. Mae pob maes yn dangos beth fyddai'n well a beth fyddai orau. Mae'r pecyn cymorth hwn yn troi bwriad yn weithred, gan helpu arddangosfeydd weithredu er gwell - yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ariannol.

Astudiaeth Achos:

Morfilod, Eglwys Gadeiriol Caerwynt

16

Adrodd Straeon Cynaliadwy mewn Lleoliad Treftadaeth

Mae'r arddangosfa Whales (2025) yn dangos sut y gall dewisiadau deunydd meddylgar, cyfrifoldeb amgylcheddol, a dehongli dan arweiniad treftadaeth gyfuno i greu effaith ddofn ar y gynulleidfa a llwyddiant masnachol. Wedi'i ddyfeisio yn osodiad dros dro a rhaglen gyhoeddus, mae Whales yn archwilio perthnasoedd dynol â chefnforoedd trwy gerfluniau, sain, ac adrodd straeon trochol - wedi'u lleoli o fewn un o fannau cysegredig mwyaf arwyddocaol Lloegr.

Cynaliadwyedd trwy Ddeunyddiau ac Ystyr

Canolbwynt yr arddangosfa yw tri cherflun morfil sberm hanner maint, wedi'u crefftio gan Tessa Campbell Fraser o rwydi pysgota 'ysbryd' - llygredd plastig a adferwyd yn uniongyrchol o'r môr. Mae un deg chwech o faneri sidan sy'n delweddu cyfathrebu morfilod a thirwedd sain cân morfilod yn creu amgylchedd aml-synhwyrdd sydd wedi'i wreiddio mewn adrodd straeon ecolegol. Mae'r dewis o ddeunyddiau ei hun yn ddeongliadol. Mae ymwelwyr yn dod ar draws harddwch y morfilod ochr yn ochr â phresenoldeb corfforol gwastraff y cefnfor. Trwy drawsnewid rhwydi wedi'u taflu yn gerfluniau, mae'r gwaith celf yn modelu dull cylchol o wneud arddangosfeydd - gan ddangos sut y gall deunyddiau wedi'u hailgylchu gario naratifau pwerus heb beryglu ansawdd artistig. Yma, mae'r cyfrwng yn dod yn rhan o'r neges, gan ymgorffori cynaliadwyedd yng nghraidd y profiad.



Astudiaeth Achos: Morfilod, Eglwys Gadeiriol Caerwynt

17

Partneriaeth ac Etifeddiaeth

Datblygwyd Whales trwy bartneriaeth gydweithredol rhwng Eglwys Gadeiriol Winchester, Messums, a'r artist Tessa Campbell Fraser, wedi'i gynhyrchu gyda Ghost Fishing UK a'i gefnogi gan Sefydliad Morol a Morwrol Prifysgol Southampton. Sicrhodd y cyfuniad hwn o greadigrwydd ac arbenigedd artistig, hygrededd gwyddonol, a phwrpas elusennol uniondeb ac ymgysylltiad cyhoeddus cryf.

Gan fod y gosodiad wedi'i greu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, eu hailgylchu, ac y gellir eu hailddefnyddio, fe'i cynlluniwyd gyda bywyd ymlaen mewn golwg. Mae'r cerfluniau bellach yn ffurfio arddangosfa deithiol, sy'n parhau i greu effaith heb yr angen am ddeunyddiau ychwanegol.



Mewnwelediadau Arfer Gorau

Mae Whales yn dangos nad yw creu arddangosfeydd cynaliadwy yn ymwneud â lleihau gwastraff yn unig; mae'n ymwneud â chysoni cyfrifoldeb ecolegol â chyfoeth deongliadol a gwerth cymdeithasol. Mae egwyddorion allweddol yn cynnwys:

- **Gadael i ddeunyddiau adrodd y stori.** Gall deunyddiau wedi'u hailgylchu ddyfnhau ystyr naratif a modelu ymddygiad cynaliadwy.
- **Defnyddio mannau treftadaeth fel partneriaid deongliadol.** Gall cyd-destun pensaernïol ymhelaethu ar negeseuon amgylcheddol a chyseiniant emosiynol.
- **Dylunio ar gyfer ailddefnyddio a bywyd ymlaen.** Mae teithio ac ailddefnyddiadwyedd yn lleihau effaith amgylcheddol wrth gynyddu ymgysylltiad cronrus.
- **Cysylltu cynaliadwyedd â datblygu cynulleidfaoedd.** Gall arddangosfeydd sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd ddenu cynulleidfaoedd newydd gan gyfoethogi rhai presennol.
- **Mesur effaith emosiynol, nid dim ond presenoldeb.** Mae addewidion ymwelwyr a bwriadau ymddygiadol yn ddangosyddion allweddol o newid ystyrlon.

Mae Morfilod yn sefyll fel model cymhellol o sut y gall dewisiadau deunydd, moeseg amgylcheddol, ac adrodd straeon treftadaeth gydweithio i ddarparu profiad trawsnewidiol i ymwelwyr. Gyda chynaliadwyedd wrth wraidd y broses artistig a deongli, mae llwyddiant y prosiect hwn yn dangos y gall arddangosfeydd sy'n gyfrifol am yr amgylchedd fod yn hyfyw yn fasnachol, yn bwerus yn emosiynol, ac yn hynod gofiadwy.



3: Aildychmygu

18

Ymestyn Gwerth



Dychmygwch hyn: yng nghefn amgueddfa, mae cas arddangos yn casglu llwch. Ar un adeg, roedd yn seren noson agoriadol, yn dal trysorau o dan oleuadau llachar. Nawr, mae'n eistedd heb ei ddefnyddio, yn aros – wedi'i fwriadu i'w storio, neu'n waeth, safle tirlenwi.

Crëwyd cynllun Cyfnewid AHI i newid y stori honno. Wedi'i eni o sgysiau mewn cynadleddau AHI, mae'r cynllun yn ymateb i her gyfarwydd: cyllidebau tynn, adnoddau sy'n crebachu, a'r angen brys i weithredu ar yr argyfwng hinsawdd. Mae gan lawer o amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth ddeunyddiau dros ben – casys, arwyddion, paneli, propiau – a allai gael bywyd defnyddiol o hyd. Mae amgueddfeydd eraill, yn enwedig safleoedd llai neu safleoedd a gynhelir gan wirfoddolwyr, yn brin o'r arian i gael mynediad at asedau o'r fath. Mae cynllun y Gyfnewidfa yn cysylltu'r ddau.

Yn ei hanfod, mae'r cynllun yn syml:

- **Angen:** Mae gormod o offer da yn cael ei wastraffu; ni all gormod o sefydliadau fforddio ei brynu'n newydd.
- **Nod:** Creu platfform digidol cenedlaethol lle gall aelodau AHI rannu, cyfnewid ac ailddefnyddio deunyddiau arddangos.
- **Uchelgais:** Ymgorffori arfer cylchol mewn gwaith treftadaeth – ymestyn gwerth, lleihau anghydraddoldeb, a gwneud cynaliadwyedd yn arfer ymarferol, bob dydd.

Mae cymryd rhan yn hawdd – rhestrwch yr hyn sydd gennych, gofynnwch am yr hyn sydd ei angen arnoch, neu ymunwch i gael eich ysbrydoli gan ddyfeisgarwch eraill. Gall cyfraniadau fod mor fach â phlinth sengl, neu mor fawr ag arddangosfa gyfan. Mae'r budd yn gyfunol: llai o wastraff, creadigrwydd cyffredin, ac arian wedi'i arbed ar gyfer dehongli yn hytrach na seilwaith.



[Dolen we i blatfform cynllun Cyfnewid AHI](#)

Ailddefnyddio: Y Gyfnewidfa AHI


20

Haul a Thân yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Amwythig

Ystyriwch enghraifft Amgueddfeydd Swydd Amwythig. Ar gyfer eu harddangosfa Haul a Thân: Bywyd a marwolaeth ar wawr hanes (prosiect arall a gyrhaeddodd restr fer gwobr AHI), ailddefnyddiodd y tîm gasys ac ailgylchu senograffi yn lle prynu rhai newydd. Ailweithiwyd deunyddiau gyda dawn, gan ddangos nad yw cynaliadwyedd yn golygu cyfaddawdu ar ansawdd. Roedd y canlyniad yn gost-effeithiol ac yn drawiadol - ond hefyd yn symbolaidd. Trwy ailddefnyddio deunyddiau'n weledol, dangoson nhw i ymwelwyr fod cynaliadwyedd yn rhywbeth diriaethol, byw ac ysbrydoledig, yn hytrach na pholisi haniaethol yn unig.

Pam ei fod yn Bwysig

Mae Cyfnewidfa AHI yn fwy na rhwydwaith ailgylchu. Mae'n gyfle i ailfeddwl am werth, i ymestyn oes deunyddiau dehongli, ac i gau'r ddolen rhwng creu ac ailddefnyddio. Mae pob cyfnewidfa yn atal gwastraff, yn torri costau, ac yn cryfhau cydweithio ar draws y sector. Trwy ymuno, mae cyfranogwyr yn adfywio gwerth cymunedol, yn meithrin gwydnwch, ac yn cymryd camau ymarferol ynghylch yr hinsawdd. Mae enghraifft Amwythig yn dangos beth all ddigwydd pan fydd creadigrwydd yn cwrdd ag arfer cylchol. Nawr, dychmygwch hyn wedi'i atblygu ledled y DU: ecosystem fyw, genedlaethol o ailddefnyddio, dan arweiniad gweithwyr proffesiynol treftadaeth. Dyna addewid Cyfnewidfa AHI.





Mae bywyd ar ôl arddangosfeydd, sydd wrth wraidd Cyfnewidfa AHI, yn haeddu archwiliad ehangach. Yn rhy aml, mae arddangosfeydd yn cael eu trin fel rhai byrhoedlog: yn cael eu cynllunio, eu harddangos, eu datgymalu, a'u hanghofio. Ond beth pe baem yn newid ein safbwynt? Beth pe na bai pob arddangosfa yn derfynbwynt, ond yn dechrau rhywbeth newydd?

Dychmygwch gyfryngau deongliadol, senograffeg, a chydrannau wedi'u llunio gyda'r un gelfyddyd rydyn ni'n ei dwyn i weithiau celf eu hunain - wedi'u bwriadu nid i'w gwaredu, ond i'w hailddefnyddio, eu hailbwrpasu, a'u hail-ddehongli. Beth pe bai pob achos, panel, ac arddangosfa yn cario ei atgof ei hun ymlaen, yn barod i siarad eto mewn cyd-destunau newydd?

Yn y modd hwn, nid yw arddangosfeydd bellach dros dro; maent yn dod yn rhan o daith ddiwylliannol hirach. Mae deunyddiau'n mynd y tu hwnt i'w swyddogaeth wreiddiol, gan ddod yn farcwyr diwylliannol neu'n gatalyddion ar gyfer ffurfiau newydd o ymgysylltu. Plinth wedi'i ailgylchu, cas gydag ailbwrpas - mae'r gwrthrychau hyn yn casglu ystyr, gan ymgorffori creadigrwydd, cyfrifoldeb, a pharhad.

Weithiau, mae deunyddiau arddangosfa hyd yn oed yn codi i lefel arteffactau eu hunain. Mae modelau gwydr Blaschka, a grëwyd yn wreiddiol fel offer deongliadol i ddatgelu harddwch bregus bywyd morol cyn i dechnolegau digidol fodoli, bellach yn cael eu hystyried yn gampweithiau celf a gwyddoniaeth ac maent wedi'u cynnwys mewn casgliadau amgueddfeydd ledled y byd. Mae hyn yn ein hatgoffa nad oes rhaid i arddangosfeydd ddiflannu pan fydd y goleuadau'n diffodd. Gallant bara, esblygu, a pharhau i lunio diwylliant ymhell ar ôl i'w pwrpas gwreiddiol ddod i ben.

Astudiaeth Achos:

Caer Rufeinig Housesteads, Northumberland

22



Yng Nghaer Rufeinig Housesteads yn Northumberland, dangosodd y gosodiad The Future Belongs To What Was As Much As What Is pa mor bwerus y gall ôl-fywyd arddangosfa fod. Wedi'i ddylunio gan Morag Myerscough i ddathlu 1,900fed pen-blwydd Mur Hadrian, trawsnewidiodd y gwaith beiddgar, cyfoes hwn y safle hynafol gyda lliwiau bywiog, teipograffeg ar raddfa fawr, a ffurfiau trawiadol. Ailddychmygodd y gaer fel cynfas byw ar gyfer creadigrwydd a chymuned. Yn bwysig, anrhydeddwyd y prosiect hwn gyda gwobr AHI am y Digwyddiad Dros Dro Gorau, gan danlinellu ymrwymiad AHI i arloesedd a rhagoriaeth.

Yr hyn a wnaeth y prosiect yn wirioneddol arbennig oedd ei ymagwedd at gynaliadwyedd cymdeithasol. Daeth pobl leol yn gyd-grewyr, yn hytrach na gwylwyr yn unig. Trwy weithdai gydag ysgolion, grwpiau ffoaduriaid, a phobl ifanc ag anableddau dysgu, lluniodd lleisiau cymunedol y dyluniad terfynol. Daeth hyd yn oed teitl y gwaith gan gyfranogwr.

Ond daeth efallai'r elfen fwyaf pwerus o'r prosiect ar ôl i'r gosodiad gau. Yn lle cael eu datgymalu a'u taflu, rhoddwyd cartrefi newydd i lawer o gydrannau – fel placardiau wedi'u peintio â llaw a ffurfiau cerfluniol – mewn canolfannau cymunedol, ysgolion a mannau cyhoeddus. Mae'r darnau hyn bellach yn parhau i sbarduno sgysrsiau, gan bontio'r gorffennol a'r presennol, wrth feithrin ymdeimlad o berthyn.

4: Adfywio

23

Ysbrydoli adnewyddu



Mae cynaliadwyedd wedi bod yn egwyddor arweiniol ym myd amgueddfeydd a threftadaeth ers tro byd. Ond heddiw, rhaid i ni fynd ymhellach. Nid yw bellach yn ddigon i gynnal arddangosfeydd, casgliadau neu arferion yn unig.

Rhaid i ni gamu i'r gofod mwy uchelgeisiol – a mwy brys – o adfywio: atgyweirio, adnewyddu a grymuso'r cymunedau, y diwylliannau a'r ecosystemau y mae amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth yn eu llunio'n weithredol. Mae hyn yn ymwneud â symud o amddiffyn yr hyn sy'n bodoli, i feithrin yr hyn a allai ffynnu eto.

Ac mae un enghraifft ddisglair o'r ysbryd adfywiol hwn yn dod o Orkney, yr Alban – yn Amgueddfa Stromness, rhan o Gymdeithas Hanes Natur Orkney.

Astudiaeth Achos: Caffis Hinsawdd yn Orkney

25

Trawsnewidiodd y prosiect Caffis Hinsawdd: Newidiadau mewn Oes yr amgueddfa yn ganolfan fyw ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd. Daeth cyfres o gaffis hinsawdd â phobl leol ynghyd i rannu'r newidiadau amgylcheddol roeddent wedi'u gweld – yn rhannol drwy sgwrs ac yn rhannol drwy fyfyrio creadigol ac ymarferol.

Stampiodd y cyfranogwyr eu geiriau a'u teimladau ar ddarnau jig-so metel, a gafodd eu cydosod yn ddiweddarach yn waith celf cyhoeddus trawiadol yng nghanol arddangosfa. Ond y rheswm wnaeth y prosiect hwn yn nodedig, a'r rheswm enillodd wobr AHI am Ragoriaeth mewn Dehongli, oedd beth ddigwyddodd nesaf. Ni ddaeth y gwaith i ben pan gaeodd yr arddangosfa. Tyfodd y gwaith. Addasodd y gwaith. Ehangodd y gwaith.

Parhaodd yr amgueddfa i drafod â'i chymuned a, thrwy'r sgwrsiau, daeth yn ganolfan ar gyfer arolygon bioamrywiaeth glannau, gan ffurfio partneriaethau parhaol â sefydliadau fel y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) i hyrwyddo addysg am yr hinsawdd. Dyma enghraifft o adfywio ar waith: creadigol, cynhwysol, cydweithredol, ac yn anad dim, parhaol. Nid dim ond adrodd stori am newid hinsawdd oedd Amgueddfa Stromness – roedd yn helpu i ysgogi newid cadarnhaol yn y gymuned.

Ac mae'r ysbryd hwnnw'n parhau heddiw. Mae'r clwb ieuenctid lleol wedi bod yn rhan o osod chwiliedydd monitro tymheredd dŵr y môr, sy'n ffrydio data byw yn uniongyrchol i'r amgueddfa.



Yma, gallwch weld y clwb ieuenctid yn snorcelu oddi ar y pier fel rhan o'r gwaith.

Mae'r amgueddfa hefyd yn gweithio gyda'r artist Jenny Pope, sydd wedi cael ysbrydoliaeth o'r casgliad i greu cerflun arnofiol. Mae'r gwaith celf hwn wedi'i gynllunio i gynrychioli hynofedd a gwydnwch mewn cyfnodau digynsail, gyda phwrrpas sylfaenol o annog bywyd morol yn weithredol i'w wladychu.



Yma, gallwch weld y bwi monitro yn cael ei ddefnyddio yn y dyfroedd o amgylch Stromness.

Mae'r syniadau hyn yn gwneud adfywio yn weladwy: mewn pobl ifanc yn ymgysylltu â'r môr, mewn data byw yn dod mewn i'r amgueddfa, ac mewn cerflun sydd ar unwaith yn gelf, yn wyddoniaeth, ac yn noddfa. Nid prosiectau yn unig yw'r rhain. Maent yn hadau adnewyddu, sy'n cynnig cyfleoedd i amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth helpu cymunedau i ddychmygu - a byw mewn - dyfodol llewyrchus.

Mae'r pecyn cymorth terfynol hwn wedi'i lunio o amgylch pedwar colofn thematig: natur, cymuned, diwylliant, a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob colofn yn darparu awgrymiadau i ysbrydoli arfer adfywiol. Dychmygwch arddangosfeydd sy'n adfer ecosystemau'n weithredol – trwy waliau byw, gerddi peillwyr, neu ddeunyddiau sy'n dal carbon. Dychmygwch amgueddfeydd fel mannau iacháu dinesig, wedi'u cyd-greu â chymunedau i feithrin lles ac ailadeiladu cysylltiadau cymdeithasol.

Dychmygwch ddiwylliant ei hun fel catalydd – lle mae celf a threftadaeth yn dod yn hadau ar gyfer dyfodol newydd, gan sbarduno ymddygiadau sy'n cynnal rhyngddibyniaeth. A dychmygwch ddylunio gyda chenedlaethau'r dyfodol mewn golwg bob tro, fel bod pob arddangosfa yn gadael rhywbeth gwerthfawr a phwrrpasol ar ôl: canolfan ddysgu, gardd, neu etifeddiaeth sy'n parhau i dyfu ymhell ar ôl i'r drysau gau. Nid yw'r amgueddfeydd hyn ond yn darparu mwy o 'bethau', ond adnoddau, profiadau, a mannau y gellir eu defnyddio, eu haildefnyddio, a'u trysori.

Mae'r pwrpas yn syml ond yn radical: sicrhau bod pob arddangosfa, pob rhaglen, a phob partneriaeth yn gwneud mwy na chynnal – mae'n adnewyddu, yn adfywio, ac yn helpu ein byd i ffynnu'n weithredol.

Pecyn Cymorth 3: Adfywio

O Gynnal i Ffynnu

27

Cymuned fel Tir Comin (Adnewyddu Cymdeithasol)

- Rhaglenni a grëwyd ar y cyd sy'n adeiladu cyfalaf cymdeithasol
- Arddangosfeydd fel mannau iacháu dinesig (ar ôl gwrthdaro, lles)
- Ecwiti fel digonedd: lleisiau amrywiol, perthnasoedd cilyddol

Diwylliant fel Catalydd (Adnewyddu Creadigol)

- Celf neu dreftadaeth fel had ar gyfer dychmygu dyfodol cynaliadwy
- Defnyddio adrodd straeon i sbarduno ymddygiadau adfywiol mewn ymwelwyr
- Gwyliau ac arddangosfeydd sy'n dathlu rhyngddibyniaeth

Natur fel Partner (Adfywio Ecolegol)

- Arddangosfeydd sy'n adfer ecosystemau (megis waliau byw, gerddi peillwyr)
- Deunyddiau sy'n dal carbon (bio-seiliedig, cywarch, bambw)
- Amgueddfeydd yn gynefinoedd (toeau gwyrdd, blychau adar)

Cenedlaethau'r Dyfodol (Ffyniant Hirdymor)

- Mae pob arddangosfa'n gadael rhywbeth ar ôl (megis canolfan ddysgu, gardd gymunedol, neu etifeddiaeth ddigidol)
- Dylunio ar gyfer cylchredoldeb a thwf (cit modiwlaid y gellir ei roi i ysgolion)
- Alinio â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig – ond wedi'u fframio fel cyfleoedd, nid rhwymedigaethau

Astudiaeth Achos: Etifeddiaeth Carbon a Phlannu COEDWIG

Dyfodol yn Amgueddfa Kilmartin

28

Yn Amgueddfa Kilmartin yn yr Alban sydd wedi'i hailddatblygu, mae Carbon Legacy a FOREST gan Lizzie Rose yn ymgorffori symudiad o gynaliadwyedd i adfywio.

Wedi'i adeiladu o 375 o goed derw wedi'u torri i lawr, roedd Carbon Legacy yn tynnu ar gofeb cwrsws 5,800 oed y Glen. Yn ei chanol oedd 375 o eginblanhigion derw byw, gan droi'r amgueddfa yn safle coffa ac yn wely hadau o bosibiliadau.

Ar gyfer FOREST, gwahoddodd gweithdai cymunedol gyfranogwyr i dynnu llun o bob eginblanhigyn mewn inc derw-gall, gan greu 375 o weithiau unigryw. Roedd y gosodiad yn adleisio llafur cyfunol adeiladwyr hynafol ac ymgyrchwyr hinsawdd heddiw.

Yn hollbwysig, mae etifeddiaeth yr arddangosfa yn parhau ar ffurf coed derw ifanc wedi'u plannu yn yr ardal o amgylch yr amgueddfa. Mae'r coed hyn bellach yn henebion, wedi'u gwreiddio mewn cymuned, adfywio, ac addewid dyfodol bywiog.

Mae'r prosiect hwn, a gyrhaeddodd y rhestr fer ar gyfer gwobr AHI Calling Out Climate Change, yn dyst i bŵer arfer adfywiol. Mae'n sefyll fel enghraifft fyw o sut y gall amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth symud o gynnal i greu - o arddangos y byd i'w lunio'n weithredol.



Nid yw arddangosfeydd byth yn wirioneddol dros dro. Mae eu dylanwad yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'w hyd corfforol, gan lunio meddwl, ysbrydoli gweithredu, a newid y berthnasoedd rhwng pobl, lleoedd, a'r blaned. Gall yr hyn a grëir o fewn amgueddfa neu ofod treftadaeth barhau i atseinio - yn dawel neu'n bwerus - ymhell ar ôl i'r ymwelydd olaf adael.

Mae'r canllaw hwn ar arddangosfeydd cynaliadwy ac adfywiol yn casglu egwyddorion, mewnwelediadau, a dulliau sy'n seiliedig, yn greadigol, ac yn ymarferol. Eto i gyd, mae ei bwrpas yn mynd ymhellach. Mae'n gwahodd meddylfryd newydd: cydnabod arddangosfeydd nid fel arddangosfeydd sefydlog, ond fel hadau. Hadau a all wreiddio mewn cymunedau, sbarduno cydweithrediadau annisgwyl, ac agor llwybrau newydd ar gyfer adnewyddu diwylliannol ac ecolegol.

Wrth i sefydliadau diwylliannol ddychmygu'r dyfodol y maent am ei feithrin, mae cwestiwn yn codi: pa etifeddiaeth y gallai pob arddangosfa, rhaglen, neu ymyrraeth ei rhoi ar waith?

Mae'r syniadau yn y canllaw hwn yn annog symudiad o gynnal yr hyn sy'n bodoli i adfywio lleoedd, perthnasoedd a phosibiliadau yn weithredol. Mae'r symudiad hwn yn ein herio i ystyried sut y gallai ein gwaith ailgyflenwi yn hytrach na disbyddu, a sut y gallem adfer yn ogystal â datgelu.

Yn y pen draw, mae ein heffaith yn cael ei mesur mewn dwy ffordd: pa mor dda rydym yn cadw'r hyn rydyn ni'n eu hetifeddu, a pha mor feiddgar rydym yn cyfrannu at yr hyn a fydd yn dilyn.

5: Adnoddau a Darllen Pellach

30



1. Pecyn Cymorth Dylunio ac Adeiladu Arddangosfeydd Cynaliadwy Cynghrair Amgueddfeydd America (AAM)

Dolen: [AAM – Pecyn Cymorth Dylunio ac Adeiladu Arddangosfeydd Cynaliadwy](#)

Disgrifiad: Pecyn cymorth cynhwysfawr sy'n amlinellu dulliau cynaliadwy a chylchol o ddylunio arddangosfeydd, gan gynnwys canllawiau deunyddiau, 'Addewid Deunyddiau', a strategaethau sy'n cefnogi lles dynol, cymdeithasol, ecolegol a hinsawdd.

2. Llyfrgell DEUNYDDIAU ystyriol

Dolen: [Llyfrgell DEUNYDDIAU ystyriol](#)

Disgrifiad: Catalog wedi'i guradu o ddeunyddiau adeiladu a saernïo cyfrifol, sy'n cynnig canllawiau sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer dewis deunyddiau sy'n ymwybodol o'r amgylchedd.

3. Pecyn Cymorth Effaith Amgylcheddol yr Amgueddfa Ddylunio

Dolen: [Amgueddfa Ddylunio – Pecyn Cymorth Effaith Amgylcheddol](#)

Disgrifiad: Wedi'i ddatblygu gydag Arsyllfa'r Dyfodol ac URGE Collective, mae'r canllaw hwn, sy'n seiliedig ar ddata, yn dadansoddi effeithiau carbon ac amgylcheddol gwneud arddangosfeydd ac yn darparu strategaethau ymarferol ac offer modelu effaith i'w lleihau.

4. Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd Pwyllgor Rhyngwladol Amgueddfeydd a Chasgliadau Celf Fodern (CIMAM)

Dolen: [CIMAM – Pecyn Cymorth ar Gynaliadwyedd yn Ymarfer Amgueddfeydd](#)

Disgrifiad: Adnodd ar-lein sy'n esblygu ac yn cynnig arferion gorau, astudiaethau achos, templedi, a chyfeiriadur eang i gefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd mewn amgueddfeydd ac arddangosfeydd celf gyfoes.

5. Cynghrair Hinsawdd yr Oriel (GCC) a'r Grŵp Arddangosfeydd

Dolens: [GCC, Y Grŵp Arddangosfeydd](#)

Disgrifiad: Yn darparu cyfrifianellau carbon, canllawiau ymarferol, astudiaethau achos, a strategaethau economi gylchol i helpu orielau ac amgueddfeydd i leihau effaith amgylcheddol gwneud arddangosfeydda theithio.

6. Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd Cymdeithas Ryngwladol Arddangosfeydd a Digwyddiadau (IAEE) (yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau)

Dolen: [IAEE – Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd](#)

Disgrifiad: Canllaw 'sut i' modiwlaid ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau cynaliadwy, sy'n cwmpasu gwerthuso gweithredol, strategaethau lleihau amgylcheddol, cynaliadwyedd cymdeithasol, ac offer adrodd (ar gael i aelodau IAEE).

7. Rhwydwaith o Sefydliadau Amgueddfeydd Ewropeaidd (NEMO): Meithrin deialog mewn cyfnodau rhaniadol

Dolen: [NEMO – Meithrin deialog mewn cyfnodau rhaniadol](#)

Disgrifiad: Canllaw ymarferol i amgueddfeydd ar hwyluso deialog gymunedol ac ymgysylltiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnig astudiaethau achos a dulliau cam wrth gam ar gyfer fforymau cynhwysol a chynaliadwy'n gymdeithasol.

8. Adroddiad Rhaglen Effaith Hinsawdd PST ART Getty

Dolen: [Getty – Adroddiad Effaith Hinsawdd PST ART](#)

Disgrifiad: Adroddiad yn manylu ar Raglen Effaith Hinsawdd PST ART lwyddiannus. Gan gynrychioli'r set ddata fwyaf o allyriadau arddangosfeydd hyd yma, mae'n tynnu sylw at yr arferion cynaliadwy a fabwysiadwyd gan bartneriaid i leihau carbon a gwastraff yn eu gweithrediadau amgueddfa rheolaidd.

9. Prosiect Llythrennedd Carbon: Llythrennedd Carbon ar gyfer y Sector Diwylliannol

Dolen: [Llythrennedd Carbon ar gyfer y Sector Diwylliannol: Pecyn Cymorth Amgueddfeydd](#)

Disgrifiad: Pecyn cymorth, sy'n darparu hyfforddiant llythrennedd carbon ac offer ymarferol i amgueddfeydd y DU i leihau eu heffaith carbon, gan rymuso staff i adrodd stori newid hinsawdd trwy eu casgliadau.

10. Datblygu Amgueddfeydd y Gogledd


Dolen: [MD Gogledd](#)

Disgrifiad: Partneriaeth a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr rhwng pedwar ymddiriedolaeth amgueddfa ranbarthol, sy'n ymroddedig i adeiladu amgueddfeydd cryf ledled y Gogledd a fydd yn gyrru hunaniaeth ddiwylliannol ac yn cyflawni effaith drawsnewidiol yn eu cymunedau.

10a. Datblygu Amgueddfeydd y Gogledd: Cylchred Amgueddfeydd

Dolen: [MD Gogledd Cylchred Amgueddfeydd](#)

Disgrifiad: Cynllun ailgylchu ar gyfer amgueddfeydd y Gogledd sy'n dargyfeirio offer amgueddfa diangen o safleoedd tirlenwi trwy ei ailgartrefu gyda sefydliadau eraill, gan greu economi gylchol o fewn y sector.



Gwnaed y Canllaw Arfer Gorau hwn yn bosibl
gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Eric Langham, Ymddiriedolwr AHI a Sylfaenydd
Barker Langham

Barkerlangham.com

Gyda diolch am eu mewnwediadau gwerthfawr:
Ollie Taylor, Mhairi Naismith, a phawb yn AHI.

160 Stryd Packington
N1 8RA Llundain
Y Deyrnas Unedig

AHI.org.uk



Canllaw wedi'i ddylunio gan
Alex Hayes, Barker Langham

“**ahi** Association
for Heritage
Interpretation